



Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 13 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleodedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

Newyddion



PONTARDDULAIS YN ARWAIN Y Ffordd

Cyngor Tref Pontarddulais yn Cyflwyno Hyfforddiant Gorfodol i Gyngorwyr *Pontarddulais, Abertawe – Tachwedd 2025*

Mae Cyngor Tref Pontarddulais wedi cymryd cam blaengar i gryfhau llywodraeth leol drwy ofyn i bob cyngorydd gwblhau chwe modiwl hyfforddi Un Llais Cymru yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd ac ar ddechrau pob cyfnod newydd.

Mae'r cynnig, sydd bellach yn rhan o Reolau Sefydlog y Cyngor, yn cwmpasu modiwlau ar: *Y Cyngor*, *Y Cyngorydd*, *Cyfarfod Y Cyngor*, *Cyllid Llywodraeth Leol*, *Cod Ymddygiad* a *Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*.

Meddai Clerc y Tref, **Susan Rodaway**, fod y syniad yn deillio o glywed y frawddeg "dylai hyfforddiant fod yn orfodol" ar draws Cymru. "Yr oedd hi'n amser troi'r ymadrodd hwnnw'n weithred," meddai.

Derbyniodd y cynnig gefnogaeth unfrydol, ac fe'i canmolwyd gan y Maer, **Philip Downing**, fel cam tuag at arweinyddiaeth fwy gwybodus a chryf:

"Cynghorwyr sydd â gwybodaeth gyfoethog yw creiddiau cymuned ffyniannus."

Gobeithia'r Cyngor y bydd ei enghraifft yn annog awdurdodau lleol eraill i ddilyn ei esiampl — gan gefnogi nodau ehangach Cymru o wella democratiaeth leol a hybu hyder y cyhoedd.

OES YNA UNRHYW CYNGHORAU BLAENGAR ERAILL YN BAROD I GOFLEIDIO HYN? GADEWCH IINI WELD A FYDD ERAILL YN DILYN EU HESIAMPL !



Coed am ddim i ysgolion a chymunedau.

Mae coed yn helpu pobl a natur i ffynnu. Bydd plannu mwy ohonynt yn rhoi dyfodol gwyrddach ac iachach i ni i gyd, felly rydyn ni'n rhoi miloedd ohonynt am ddim i ysgolion, cynghorau, clybiau a grwpiau cymunedol i helpu hynny i ddigwydd.

<https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/schools-and-com...> (Saesneg yn unig)

YC ystadau cymru

[Prif ddogfen yma.](#)

Fel y gwyddoch o bosib, sefydlodd Ystadau Cymru grŵp diogelwch adeiladau yn 2024 i fynd i'r afael â'r heriau gwahanol a wynebwyd gan reolwyr ystadau cyhoeddus ledled Cymru.

Fel rhan o'r fenter hon, mae'r grŵp wedi dechrau archwilio'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwefru cerbydau trydan a rheoli batris lithiwm, gan ffurfio is-grŵp penodedig o arbenigwyr i arwain y gwaith hwn. Tra bo canllaw cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu, crëwyd canllaw dros dro i sicrhau ymwybyddiaeth amserol (gweler y ddogfen atodedig).

Caiff rheolwyr ystadau eu hargymell i adolygu'r ddogfen a mynd i'r afael â unrhyw faterion sydd

angen eu datrys. Drwy weithredu mesurau diogelwch priodol, gellir rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwefru cerbydau trydan neu fatris lithiwm yn effeithiol.

Os hoffech wybod mwy am waith y Grŵp Diogelwch Adeiladau neu Ystadau Cymru yn gyffredinol, ewch i <https://www.llyw.cymru/ystadau-cymru> neu anfonwch e-bost at ystadaucymru@llyw.cymru.

Yn dilyn rhywfaint o ymchwil cychwynnol, fy nealltwriaeth yw bod y gwasanaeth tân ac achub lleol yn gallu cynnig cymorth, os oes ei angen, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch diwygio asesiadau tân mewn adeiladau TCC i adlewyrchu newidiadau neu ddiweddariadau diweddar.

Mae gwefannau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnwys manylion cyswllt yn ogystal â chynghor defnyddiol.

[Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig rhai adnoddau defnyddiol gan gynnwys rhestr wirio asesiad risg diogelwch tân i'r rheini sydd newydd ddechrau mewn rheoli adeiladau](#)

**Gwasanaeth
Tan ac Achub
De Cymru**

**Gwasanaeth
Tan ac Achub
Gogledd
Cymru**

**Gwasanaeth
Tan ac Achub
Canolbarth a
Gorllewin
Cymru**

Mae Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol (NESO) yn datblygu cynllun strategol ynni rhanbarthol (RESP) pwrpasol ar gyfer Cymru. Bydd y cynllun yn helpu i sicrhau bod Cymru yn cael y seilwaith ynni sydd ei angen arni i gyrraedd nodau ar gyfer twf economaidd a datgarboneiddio. Mae NESO wedi datblygu methodoleg arfaethedig, sy'n nodi sut y bydd y cynllun yn cael ei gynhyrchu. Cyhoeddwyd y fethodoleg ar gyfer ymgynghoriad ar 17 Tachwedd 2025 ac mae'n rhedeg tan 16 Ionawr 2026. Gallwch weld y fethodoleg [yma](#), lle byddwch hefyd yn dod o hyd i fanylion ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'n hanfodol bod eich Cyngor yn cymryd rhan yn y broses hon.

Cysylltwch a Huw Lewis- Cynllunio Strategol Ynni Rhanbarthol - Cymru 07860 509182

Mae
cwestiynau
ymgyngori ar
gael yn
Gymraeg –
ewch i lawr y
dudalen i'r
adran 'Sut
allaf gyflwyno
fy ymateb?'

Erthygl

Dogfen Dulliau
Cryno

Werth ffeindio amser i'w wyllo ar wefan Un Llais Cymru:

Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:

Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi
trefniadau enghreifftiol i helpu
Cynghorau i redeg yn effeithiol a
chyflawni eu rhwymedigaethau
statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu
canllawiau statudol a chanllawiau
eraill.

Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn
rheolaidd, gan helpu Cynghorau i
gynnal fframwaith llywodraethu
cadarn

Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael

Mwy o
Fanylion

.....

Nodiadau Datblygu Ymarfer:

Nodiadau Datblygu Ymarfer :

Mae Un Llais Cymru wedi creu
Nodiadau Datblygu Ymarfer –
canllawiau syml i helpu Cynghorau i
ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i

roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

**Nodau Datblygu Ymarfer i
gyd iw gweld yma**

**NDY Cyfarfod Blynyddol (wedi'i
ddiwygio)**

Gweler
yma

NDY - Sefydlu aelod newydd

Gweler
yma

Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:

**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3
clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

Cliciwch yma i llogi lle

SWYDDI

Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

Swyddi Gwag:

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

Gweler pob swydd gwag yma

**Mwy o
Fanylion**

Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

[UK City of Culture 2029 Expert Advisory Panel: Recruitment Advert - GOV.UK](#)

Swyddi gwag: Rheolwr Tîm – Ansawdd a Gwybodaeth

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £47,675 i £56,445

Dyddiad cau: 24/11/2025, 16:00

Cyswllt: [Rheolwr Tîm – Ansawdd a Gwybodaeth -](#)

Swyddi gwag: Saer Maen dan Hyfforddiant x3

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £27,302 to £29,291

Dyddiad cau: 27/11/2025, 16:00

Cyswllt: [Saer Maen dan Hyfforddiant x3 -](#)

Swyddi gwag: Cafcass Cymru - Rheolwr Gweithredu Newid – Cam-drin Cartref – Diogel a Gyda'n Gilydd

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £47,675 i £56,445

Dyddiad cau: 01/12/2025, 16:00

Cyswllt: [Cafcass Cymru - Rheolwr Gweithredu Newid – Cam-drin Cartref – Diogel a Gyda'n Gilydd -](#)

Swyddi gwag: Gwyddonydd Data Cyswllt

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £30,754 to £34,997

Dyddiad cau: 01/12/2025, 16:00

Cyswllt: [Gwyddonydd Data Cyswllt -](#)

Swyddi gwag: Gwyddonydd Data Cyswllt

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £37,111 to £45,378

Dyddiad cau: 01/12/2025, 16:00

Cyswllt: [Gwyddonydd Data Cyswllt -](#)

Swyddi gwag: Prif Wyddonydd Data

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £47,675 to £56,445

Dyddiad cau: 01/12/2025, 16:00

Cyswllt: [Prif Wyddonydd Data -](#)

Swyddi gwag: Swyddog Ymgysylltu a Hyrwyddo
Gwyddoniaeth - Llundain

Union gyflog cychwynnol: £44,461

Dyddiad cau: 01/12/2025, 16:55

Cyswllt: [Swyddog Ymgysylltu a Hyrwyddo
Gwyddoniaeth - Llundain -](#)

Swyddi gwag: Swyddog Cymorth Rhanbarthol, Y
Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £30,754 to £34,997

Dyddiad cau: 02/12/2025, 16:00

Cyswllt: [Swyddog Cymorth Rhanbarthol, Y
Rhwydwaith Ffyrdd Strategol -](#)

Swyddi gwag: Pennaeth Cyflenwi a Gwella'r System
ADY

Ystod cyflog neu fand Cyflog: £76,715 to £88,023

Dyddiad cau: 09/12/2025, 16:00

Cyswllt: [Pennaeth Cyflenwi a Gwella'r System ADY -](#)

Cadwch y Dyddiad

Cyfarfod Blynyddol Un
Llais Cymru

Cynhadledd
Cenedlaethol a

Cynhadledd Arfer
Arloesol Un Llais

Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

Cylchlythyr Grantiau a chyfleoedd rhif 10

Cliciwch
yma

Cefnogi Iechyd Meddwl – Paratoi Eich Cymuned ar
gyfer Heriau Mis Ionawr.

Dydd Gwener 12 Rhagfyr 11am - 1pm

Yn aml iawn mis Ionawr yw'r mis anoddaf i lawer
o bobl: rhaid talu biliau, mynd yn ôl i drefn arferol
bywyd, ac mae tywydd oer yn gallu gwneud
heriau iechyd meddwl ac unigrwydd yn waeth.
Gan fod llawer o wasanaethau ar gau dros y
Nadolig, mae cynllunio cynnar yn gofalu fod
cymorth ar gael pryd bynnag mae ei angen.

Ymunwch â'r gweminar ymarferol hwn i edrych ar
ffyrdd cost isel y gall eich cyngor gefnogi pobl
dros y gaeaf hwn. Cawn gyfraniad gan y
Samariaid ar yr effaith ar iechyd meddwl ar draws
cymunedau yng Nghymru, a chan Gyngor Dinas
Bangor ar sut mae eu hwb cymunedol newydd yn
helpu pobl leol gydag anghenion ariannol,
cymdeithasol, a llesiant.



Lleoeedd Lleol ar gyfer Natur

Gweithdai Adran 6

Diolch i bawb a fu'n mynychu ein Gweithdai Adran 6. Maent wedi profi'n hynod boblogaidd gyda bron i 300 o gyfranogwyr ar draws 7 Gweithdy. Llwyddodd y dyddiad ychwanegol i gael ei lenwi mewn dim ond un diwrnod. Gellir dod o hyd i'r adnoddau ar ein [gwefan](#), ynghyd â llawer o wybodaeth am Ddyletswydd y Adran.

Gofynnir i bob Cyngor anfon copi o'u Hysbysiadau Adran 6 wedi'u cwblhau atom, a chynnwys y ddolen URL i'w gwefan lle mae eu hadroddiad wedi'i gyhoeddi.

Anfonwch at: bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru

Bydd **2026** yn dechrau'r cylch adrodd nesaf ar gyfer Adran 6 a byddwn yn cynnal cyfres o weithdai i helpu C&TCs i baratoi eu **Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth** yn y flwyddyn newydd. Bydd mwy o fanylion ar gael yn fuan...

Pecynnau Bioamrywiaeth

Mae ein **Deg pecyn** ar agor i geisiadau, gallwch ddarganfod mwy yma: [Pecynnau Bioamrywiaeth](#)

Rydym ar hyn o bryd yn brysur yn plannu gyda phibellau gyda Chynghorau ac ni fyddwn yn derbyn mwy o geisiadau ar gyfer y pecynnau Pibellau gan fod tymor plannu'r Hydref bellach ar ben.

Mae'r holl becynnau eraill ar agor i geisiadau. Byddwn yn canolbwyntio ar Gwrychoedd, Coed a Phyllau dros y misoedd gaeaf, ac yn dilyn hynny ar Arwyddion, Planhigion Môn, Hadau Blodau Gwylt a phecynnau Gwyddoniaeth Dinesig ym mis Mawrth. Anfonwch eich ceisiadau cyn gynted â phosibl neu cysylltwch â ni ar unwaith i drafod sut y gallai ein pecynnau fynd law yn llaw â'ch Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru

Un Llais Cymru / One Voice Wales

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF



Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

[Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe](#)